BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

At: Yr holl Aelodau

Copi: Yr holl staff cymorth

5 Chwefror 2021

Annwyl Aelod,

Cyfarfu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar 28 Ionawr 2021. Mae crynodeb o'r trafodaethau a'r penderfyniadau wedi'i nodi isod.

***Covid-19***

Adolygodd y Bwrdd effaith barhaus Covid-19 ar yr Aelodau a'u swyddfeydd. Mae ychydig dros flwyddyn wedi mynd heibio ers y profion positif cyntaf a gofnodwyd ar gyfer Covid-19 yn y DU, a bydd ei effaith yn cael ei theimlo'n fwy nag erioed o'r blaen. Yn ystod y cyfnod hwn o'r cyfyngiadau symud, hoffai'r Bwrdd ailadrodd ei ymrwymiad i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i chi a'ch staff cymorth. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys bod mor hyblyg ag sy'n ofynnol gyda lwfansau a ddarperir i chi yn ystod y cyfnod hwn.

Fel y gwyddoch, mae'r Bwrdd eisoes wedi rhoi cyfres o fesurau ar waith i helpu gydag effaith parhau i weithio gartref, ac os bydd angen, mae'r Bwrdd yn barod i gyflwyno mesurau cymorth pellach. Os oes gennych unrhyw faterion sydd angen eu hystyried, gallwch naill ai **gysylltu â'r Bwrdd** drwy'r ysgrifenyddiaeth neu godi'r mater yn uniongyrchol â'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

***Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)***

Yn dilyn cyflwyno **Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)** gan Lywodraeth Cymru, bu'r Bwrdd yn ystyried y goblygiadau posibl i'r Penderfyniad a allai godi o ganlyniad i fyrhau cyfnod y diddymiad a gohirio Etholiadau'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol, er bod ymrwymiad o hyd i gynnal yr etholiadau ar 6 Mai 2021, bod y Bil yn darparu ar gyfer sefyllfa lle gallai fod angen gohirio'r etholiadau o ganlyniad i bandemig Covid-19, a bod hyn, felly, yn arwain at ansicrwydd i'r Aelodau a'u staff o ran pa mor hir fydd tymor y Pumed Senedd.

Er y bydd angen i rai penderfyniadau aros am ganlyniad hynt y Bil, er mwyn rhoi sicrwydd cynnar ynghylch rhai materion, cytunodd y Bwrdd ar rai penderfyniadau dros dro yn ei gyfarfod.

Mae'r penderfyniad cyntaf yn ymwneud â dirwyn swyddfeydd i ben. Mae'r Penderfyniad yn darparu mai'r cyfnod hwyaf ar gyfer dirwyn i ben yw tri mis (adran 9.1 o'r Penderfyniad). Fel arfer, disgwylir i'r Aelodau hynny sy'n rhoi'r gorau i'w sedd ddirwyn eu materion i ben ddim hwyrach na chwe wythnos ar ôl dechrau'r diddymiad (7 Ebrill 2021 ar hyn o bryd). Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd yr Aelodau hynny'n gallu rhoi rhybudd diswyddo i'w staff ac i landlordiaid am gytundebau rhentu ac ati ymhell cyn y diddymiad. O ystyried darpariaeth y Bil i fyrhau hyd y diddymiad o bedair wythnos i un wythnos (byddai'r Senedd yn cael ei diddymu ar 29 Ebrill), a'r posibilrwydd y bydd tymor Aelod yn ei swydd yn cael ei ymestyn pe bai angen gohirio'r etholiad ar fyr rybudd, mae'r Bwrdd yn cydnabod yr anawsterau y gallai hyn eu hachosi i'r Aelodau hynny o ran pryd y dylent ddechrau dirwyn eu swyddfeydd i ben a rhoi rhybudd ynghylch rhwymedigaethau sy'n fwy na chwe wythnos.

<u>Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch dyddiad yr etholiad, ac yn amodol ar basio'r Bil, mae'r Bwrdd wedi cytuno y gallai fod angen mwy o hyblygrwydd nag arfer ar yr Aelodau hynny sy'n rhoi'r gorau i'w sedd o ran hyd eu cyfnod dirwyn i ben</u>. Felly, os bydd angen, gall yr Aelodau hynny sy'n rhoi'r gorau i'w sedd ddechrau eu cyfnod dirwyn i ben chwe wythnos ar ddechrau'r diddymiad byrrach, yn hytrach na'r dyddiad presennol ar gyfer diddymu (29 Ebrill yn hytrach na 7 Ebrill). Er eglurder, mae croeso hefyd i'r Aelodau hynny sy'n dymuno parhau i ddirwyn i ben o 7 Ebrill wneud hynny.

Fel bob amser, mae'r Bwrdd yn annog yr Aelodau hynny i gynllunio ymlaen llaw gyda'r nod o ddirwyn i ben cyn gynted â phosibl ar ôl y diddymiad, er mwyn lleihau'r effaith ar bwrs y wlad. Os bydd angen mwy o amser na'r chwe wythnos a ragwelir ar yr Aelodau sy'n rhoi'r gorau i'w sedd ar gyfer rhai ymrwymiadau oherwydd y cynigion yn y Bil, dylent drafod hyn gyda'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a'i gytuno fel rhan o'r cynllun dirwyn i ben ysgrifenedig. Os yw'r etholiad yn cael ei ohirio y tu hwnt i fis Mai, bydd y Bwrdd yn adolygu effaith y ddarpariaeth hon ar yr adeg honno.

Mae'r ail benderfyniad yn ymwneud â'r ddarpariaeth staffio ar sail tymor penodol. Ar hyn o bryd, mae'r Polisi Recriwtio yn caniatáu i'r Aelodau benodi staff ar sail penodiad tymor penodol o hyd at 18 mis. Yn dilyn hyn, mae'r contract naill ai'n cael ei derfynu neu, os bydd y gofyniad am y swydd yn parhau, byddai angen i'r Aelod greu swydd barhaol a gaiff ei recriwtio drwy gystadleuaeth agored a theg. O ystyried y posibilrwydd y gallai rhai

contractau ddod i ben ar adeg y diddymiad, os bydd yr etholiad yn cael ei ohirio, efallai na fydd Aelodau'n gallu ymestyn y contract i gwmpasu tymor estynedig y Pumed Senedd. Mae'r Bwrdd o'r farn y byddai'n rhesymol i'r Aelodau allu penderfynu ymestyn contractau unrhyw staff tymor penodol yn ystod y cyfnod gohirio. Felly, os bydd yr etholiad yn cael ei ohirio, mae'r Bwrdd wedi cytuno i ymestyn dros dro y terfyn ar hyd contractau staffio tymor penodol yn y Pumed Senedd o 18 i 22 mis, lle bo angen.

Bydd y Bwrdd yn dod yn ôl at oblygiadau'r Bil ym mis Mawrth os caiff ei basio gan y Senedd. Yn y cyfamser, bydd yn ystyried unrhyw benderfyniadau a wneir gan Gomisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Busnes a allai effeithio ar y darpariaethau cymorth sydd ar gael i'r Aelodau.

***Dyfarniad McCloud a Chynllun Pensiwn yr Aelodau***

Trafododd y Bwrdd effaith achosion McCloud a Sargeant ar Gynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd. Roedd yr achosion hyn yn ymwneud â her i'r darpariaethau trosiannol a geir mewn dau gynllun pensiwn ar y sail bod aelodau iau yn cael eu trin yn llai ffafriol ar sail oedran.

Cytunodd y Bwrdd i ailedrych ar y mater hwn unwaith y bydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau wedi ystyried pa newidiadau y gallai fod yn ofynnol yn sgil y ddau achos.

Os bydd angen unrhyw newidiadau, bydd y Bwrdd yn ymgynghori ag aelodau'r Cynllun maes o law.

***Diogelwch yr Aelodau yn y Chweched Senedd***

Fel y gwyddoch, mae'r Bwrdd yn darparu cyllid ar gyfer diogelwch yr Aelodau pan fyddant i ffwrdd o ystâd y Senedd, er enghraifft pan fyddant yn eu cartrefi a'u swyddfeydd etholaethol. Amlinellir darpariaethau o'r fath yn y Penderfyniad. I'r perwyl hwn, trafododd y Bwrdd y fframwaith cyffredinol ar gyfer diogelwch yr Aelodau yn ogystal â throsolwg o'r materion y mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu adnoddau ar eu cyfer nawr ac yn y Chweched Senedd. Cytunodd y Bwrdd i barhau â'r darpariaethau presennol ac y dylent fod yn destun ystyriaethau gwerth am arian, yn unol ag egwyddorion arweiniol y Bwrdd.

***Blaenraglen waith a strategaeth***

Fel rhan o gynllunio strategol y Bwrdd, cynhaliodd sesiwn cynllunio senarios i nodi'r goblygiadau i'w waith os bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i gynyddu capasiti’r

Senedd. Yn y cyfarfod nesaf, bydd y Bwrdd yn cynnal ymarfer tebyg i drafod y goblygiadau posibl pe bai'r Senedd yn aros yr un maint yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r ddwy sesiwn hyn yn llywio datblygiad strategaeth y Bwrdd ar gyfer ei dymor yn y swydd yn ddiweddarach eleni.

***Ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd***

Yn olaf, hoffai'r Bwrdd hefyd eich atgoffa bod yr **ymgynghoriad** ar y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ar agor o hyd. Os hoffech gyflwyno ymateb, gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich sylwadau erbyn 11 Chwefror 2021 fan bellaf. Bydd y Bwrdd yn trafod yr ymatebion i hyn, a'r ymgynghoriad ar y contract staff cymorth, yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Fel bob amser, os hoffech drafod unrhyw fater â mi, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y Bwrdd drwy anfon neges i **taliadau@senedd.cymru** i wneud trefniadau.

Pob dymuniad da, a chadwch yn ddiogel,



**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.